YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Nodiadau'r Golygydd
Cwest yr Ugeinfed Ganrif
Pymtheng Mlynedd ar Hugain yn y Weinidogaeth
Calendr yr Enwad
Gohebiaethau
Priodasau Marwgofion
Nodion yr Eglwysi



Cyf. xlix

Mehefin, 1949

Rhif 6

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—PRIFATHRO J. D. JONES, B.A., B.D.; PARCHN. S. E. BOWEN; E. R. DENNIS; D. EVANS; E. G. EVANS, B.A.; E. O. JENKINS; J. ISLAN JONES, M.A.; SIMON JONES, B.A.; A. J. MARTIN, B.A.; J. MARLES THOMAS, M.A.; LEWIS WILLIAMS; T. O. WILLIAMS, M.A.; a'r DR. D. J. DAVIES, Mr. W. S. JONES, M.A., M.Sc., a Mr. D. JONES.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by MORTIMER ROWE, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By SIDNEY SPENCER, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. TARRANT, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. STEPHENS SPINKS, M.A., PH.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL XLIX. MEHEFIN, 1949. RHIF 6.

Nodiadau'r Golygydd.

BETH AM EIN CYRDDAU?

CAFWYD Cyrddau Pasg o safon uchel eleni eto, eithr y mae lle i ofni fod eu ffrâm geidwadol yn rhwystr iddynt fod yn rym byw yn ein mysg. O gwarter i gwarter, yr un lleisiau sy'n llefaru, a pha mor dda bynnag yw'r lleisiau hynny, collant eu gwefr wrth ddygnu arni. Y mae gennym nifer o Gymru da yn weinidogion yn Lloegr, ac onid gwych o beth fuasai cael awel ffres eu gweinidogaeth i'n cyrddau. Gwelaf hefyd fod Synod a Chymanfa ac Undeb yr enwadau eraill yn rhoi lle amlwg i wŷr enwog tuallan i'w cylch, gwŷr a chanddynt neges arbennig i'r genedl a'r cyfnod. Ai nyni sy'n gul bellach? Dyna gynnig am leisiau newydd. Beth am wynebau newydd? Fe ddeuai rhai i ganlyn y lleisiau ond gwell fyth fuasai cael mwy o hysbysebu. Ceir nodyn yn YR YMOFYNNYDD ac apêl lafar gyfyng. Dim arall. Y canlyniad yw fod tuedd i'r cyrddau i fynd yn sioe fach breifat. Fe'n gwahoddir i arwerthiant a sinema yn lliwgar dros ben, ond am gwrdd, rhyw '*ddowch os mynnwch chi*' dros ysgwydd ydyw.

YR YMOFYNNYDD AR BEN HANNER BLWYDDYN.

Ar ben hanner blwyddyn y mae cyfle eto i adnewyddu'r apêl am ddarllenwyr newydd. Ymrestrodd ugain eisoes eithr go brin y mae'r newydd yn troi tafol colli'r hen. Cyfrifwch farwgofion y chwe mis diwethaf. Y nôd yw *hanner cant* a'r nôd bwysicach tu ôl i hynny yw YMOFYNNYDD mwy a gwell. Mynnwch weld fod o leiaf *un copi* ar bob aelwyd Undodaidd trwy Gymru.

Bydd rhifyn Awst yn Rhifyn Coffa arbennig i Thomas Stephens y llenor a'r Undodwr o Ferthyr. Ceir ysgrifau ynddo gan rai o brif lenorion Cymru a bydd ar werth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hysbyswch gyfeillion llengar am hyn a gofalwch eu bod yn archebu copi. Diolch am ffyddlondeb ac amynedd pawb o'n gohebwyr.

Cwest yr Ugeinfed Ganrif.

Rhif II.

Gan D. Ll. Carrellio-Morgan.

Beth yw'r gwirionedd parthed yr "ofn" sy'n rhan o'n bywyd? A fedrir, mewn un modd, rhoddi pwys ar farnau y gau-feddylegwyr a'i gyfrif yn elyn eneidiol i'r unigolyn? A yw ofn, fel proses, yn parlysu cynlluniau mwyaf addawol y bod o ddyn? Ai hwn yw maen rhwystr mwyaf yr ifanc a'r hen? Dyma rai o'r dadleuon mewnol a drinir yn arwynebol gan ddilynwyr y gau-broffwydi.

Ni wn am un dyn a aned i'r byd hwn heb iddo fod yn berchen ar ddogn o ofn. Fe wyddom hefyd am nifer o bobl o'n cwmpas sy'n orofnus ac yn disgwyl y gwaethaf pan bo'r rhagolygon yn addawol. Beth, felly, yw ofn? Yn fyr, *safety valve* yr enaid ydyw ac fe ofalodd y Crewr fod y *valve* ysbrydol-eneidiol hon yn gyplysedig â phob adeiladaeth gorfforol. Gofynnir i mi draethu'n syml a hynny a geisiaf ei wneuthur yn yr ysgrif hon. Meddyliwch am ennyd fod baban mis oed yn cysgu yn ei gawell gerllaw. Yn sydyn ac annisgwyl, daw atswn ergyd cryf i'r ystafell. Cynhyrfir yr aither a deffry'r baban ar amnaid a dechrau crio. O fewn ychydig fodfeddi i'r craidd ffrwydrol y mae angau a dinistr. Yr oedd y baban yn ddigon pell oddi wrtho i beidio a chael niwed. Eto, yr oedd canlyniadau'r ffrwydriad yn echrydus. Yr oedd y *sympathetic element* yn yr aither yn fyd-eang a thrwy gyfrwng y "cydymdeimlad" hwn, deffrowyd synhwyrau'r baban a gysgai'n dawel yn ei ystafell. Pam? Dyma'r gyfrinach sydd y tu ôl i'r dogn o ofn a roddwyd yn yr ymwybyddiaeth er diogelu'r cyfanfyd a'r ddynoliaeth.

Y mae'r byd yn llawn peryglon a damweiniau o bob math a'r ofn yw'r rhyngdarawydd rhyngom a'r eithaf. Pe llwyddai dyn i ymlid yr *ofn naturiol* hwn o'i fywyd ni fuasai'n ddim amgenach na llestr pridd neu ddarn o bren difywyd.

Yr hyn a wna'r gau-athrawon ar faes y feddyleg ansicr yw chwyddo pwysigrwydd yr ofn a chamesbonio'r *gor-ofn*. Dylasid pwysleisio'r ffaith fod yr ofn naturiol yn rhan hanfodol o'n bywyd, ond, am y gor-ofn, mae'n ofynnol i ni dreiddio'n ofalus i'r haenau anweledig hynny sy'n rhan o gyfangorff y bod meddyliol.

Tŷf y gor-ofn, yn anad dim, ar afiechyd y gydwybod. Gan fod cylch y meddwl mor eang, anodd yw dod o hyd i graidd y cynhyrfiad eneidiol heb astudio rhawd yr unigolyn yn ofalus o'r cychwyn. Fel rheol, canfyddir rhyw wall moesol yn y bersonoliaeth. Pan gysylltir y gwall moesol â rhyw act gorfforol, yr ydym wedi llwyddo i dreiddio at gychwynbwynt y gor-ofn. O hynny allan, y mae pob act gorfforol (physiological) yn cynhyrfu canolbwynt y gydwybod ond, yn anffodus, try'r meddwl i sianel allanol o graidd

y gam-weithred a dyry esgusion hollol anffyddlon am y gydwybod i'r Psycho-analyst. Ceisia'r unigolyn adwy allan o'i gyfyng-gyngor ysbrydol trwy roddi'r bai ar achosion amherthnasol i'w anfodlonrwydd a'i anhapusrwydd, ond y cwymp o'r moes normal yw prif achos ei anhwylder ego-ysbrydol. Cais rhai ryddhad o'r cyffion trwy gyfrwng crefydd ; eraill trwy sianel y ffug-fwyniannau. Fe welir, felly, mai euogrwydd o ryw drosedd ego-foesol yw craidd a grym y gor-ofn. Cyfrifaf yr ystad hon yn uffern ynddi ei hun ac er mai cyflwr eneidiol ydyw, y mae'n ddinistriol i'r unigolyn a chymdeithas.

Gofynnir i mi, weithian. a yw maddeuant yn ddeddf. Nid yw Natur yn profi deddf maddeuant ac nid yw Duw trwy un cyfrwng arbennig wedi egluro proses maddeuant, hyd y gwyddom ni. Pan ymgymerais, gyda chymorth fferyllydd medrus, â nifer o *acid-tests* i geisio profi a yw maddeuant yn gweithredu trwy gyfrwng unrhyw ddeddf anhysbys, methais a chael cymaint ag un prawf. Petai maddeuant yn ddeddf, gallasai'r ddeddf ryddhau'r unigolyn o broses y gor-ofn ond, fel y gwyddom, nid yw'r peth yn ffaith. Y mae deddf adweithrediad yn cadarnhau y gosodiad blaenllym nad yw "maddeuant", fel y cyfryw, yn ddeddf.

Y gwir plaen yw hyn. Y mae'r cwymp o foesoldeb normal yn mynd yn rhan o'r *ego-ysbrydol, a'r gwall yn cael ei gario ymlaen trwy sianel yr ymwybyddiaeth i'r terfyn. Beth, ynteu, yw ystyr cosp trwy gyfraith gwlad os nad yw'r gosodiad uchod yn wyddonol gywir ?

(*I'w barhau*).

*ego—hunan.

(*Copyright Reserved*).

Pymtheng Mlynedd ar Hugain yn y Weinidogaeth.

(Parhad o Atgofion y Parch. Islan Jones, M.A.)

Halliwell Road, Bolton.

Cynulleidfa ieuanc,—iau na'r un yn Accrington,—oedd yn Halliwell Road. Cenhadaeth ydoedd o dan y fam-eglwys Bank Street. Dau hen dŷ wedi eu gwneud yn un a'u haddasu oedd y Capel. Yr oedd yno Ysgol Sul o gant neu ychwaneg, ond plant rhieni na chymerent ddiddordeb mewn unrhyw achos crefyddol, oedd llawer o'r ysgolheigion. Cwrdd i'r plant oedd cwrdd y bore ; Ysgol Sul am ddau yn y prynhawn, a gwasanaeth am chwech yn yr hwyr.

Yr oedd dau neu dri o gynrychiolwyr Bank Street ar bwyllgor y Capel ac yr oedd aelodau o'r fam-eglwys yn cynorthwyo fel athrawon yn yr Ysgol Sul hefyd. Neilltuwyd ystafell fechan yn glwb i'r bobl ieuainc, yno gallent chwarae biliard, whist a chwaraeon eraill o dan reolau pendant, a chynhelid dawnsiau a chyfarfodydd adloniadol—dramäu a chyngherddau yn lled aml.

Yr oedd mudiad ar droed i godi Capel newydd hardd pan dorrodd y rhyfel allan yn 1914. O achos gofynion yr awdurdodau milwrol, bu raid rhoi'r cynllun adeiladu o'r neilltu yn llwyr am dro. Galwyd llawer o'r bechgyn ieuainc i'r fyddin, ac yn fuan fy mhrif waith i ar hyd yr wythnos oedd ymweld â chartrefi'r bechgyn, neu weld y bechgyn eu hunain pan ddeuent am dro, neu pan fyddent mewn ysbytai yn glaf neu glwyfedig. Yr oeddwn yn ysgrifennu llythyr mewn *copying ink* bob wythnos neu bythefnos a chymryd rhyw ugain, mwy neu lai, o adysgrifau ohono ar ddyblygydd, a danfon copi i bob aelod o'r Capel neu'r Ysgol Sul, a oedd yn y fyddin. Yr oedd y llythyr megis newyddiadur bychan yn rhoddi hanes y Capel a'r Ysgol Sul. Heblaw hyn, danfonid llawer o lythyrau personol a pharseli.

Hindley.

Yn Hydref, 1917 symudais o Bolton i Hindley, gerllaw Wigan. Gellir olrhain hanes cynulleidfa Hindley yn ôl hyd 1641, pan adeiladwyd *Capel Hindley*, a aeth, ychydig flynyddoedd ar ôl hynny, trwy ddedfryd llys cyfreithiol, yn eiddo i'r Eglwys Sefydledig; trowyd yr aelodau anghydffurfiol allan a bu y rheiny am dymor heb gartref crefyddol. Yn y flwyddyn 1700 cododd boneddwr o'r enw Richard Crook addoldy bychan i'r Anghydffurfwyr ar y fan lle saif y Capel Presbyteraidd heddiw.

Un o'r hen achosion Presbyteraidd wedi datblygu i Undodiaeth yw cynulleidfa Hindley heddiw. Cedwir yr hen enw ymlaen o hyd, sef "Y Capel Presbyteraidd", a phe gofynnai dyn dieithr yn y dref am y Capel Undodaidd, mae'n bosibl y cawsai'r ateb 'Ni wyddom ni am y fath le'; ond, pe gofynnai am y 'Capel Presbyteraidd", cawsai wybod ar unwaith. Myn rhai nad yw'n beth iawn cadw ymlaen enw sydd bellach yn gamarweiniol, a'r enw a ddefnyddir fynychaf gan swyddogion y gynulleidfa yw "Capel Anghydffurfiol Protestannaidd"; ond yn y weithred wreiddiol "Y Capel Presbyteraidd" yw'r enw a ddefnyddir amlaf: a chan fod peth eiddo yn perthyn i'r Capel, oddi ar pan godwyd ef yn 1700, gallai newid yr enw achosi peth penbleth. Y mae rhai o'n heglwysi ni yn Lloegr yn cadw'r hen deitl Presbyteraidd o hyd (megis Bank St., Bury).

Gan fod y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru yn hawlio'r enw "Presbyteriaid" y mae enw "Coleg Presbyteraidd" Caerfyrddin yn gamarweiniol am na fu'r un Methodist yno ers blyn-

yddoedd lawer ; ond ni chlywais i fod neb am newid yr enw. Y mae gwerth hanesyddol yn perthyn i hen enwau.

Yn Hindley yr oedd adeiladau helaethach a mwy cyfleus nag yn un o'r ddau le a enwais eisoes. Gwir, mai bychan oedd y Capel, a lle i ryw 150 i eistedd, ond yr oedd yn dlws a chymfforddus iawn, oddi mewn. Pan euthum i yno yn 1917 hen harmonium astmatig yn yr oriel oedd yn cyfeilio'r canu cynulleidfaol, ond wedi terfyn y rhyfel cafwyd organ bib er cof am y rhai a syrthiodd yn y brwydro. Yr oedd yno gôr gweddol dda, a chenid Salm-dôn (chant) ym mhob oedfa ac anthem unwaith y mis.

Perthynai dau adeilad prydferth a chymharol newydd i'r Ysgol Sul—ystafelloedd cyfleus i'r dosbarthau, neuadd ac ynddi lwyfan i gynnal cyngherddau, a dramäu, a chlwb yn agored bob nos o'r wythnos. O dro i dro, cynhelid dosbarth llenyddol, a cheid darlithiau ar wahanol bynciau'r dydd.

Yr oedd y dull o lywodraethu'r eglwys yn ddemocrataidd ddigon. Cynhelid cyfarfod o aelodau'r gynulleidfa ar ddechrau pob blwyddyn, i ethol swyddogion am y flwyddyn ganlynol. Gosodid ffurflen i fyny gerllaw'r drws, ac ar honno yr oedd yn angenrheidiol i rywun gynnig a rhywun arall i eilio pob un a ddymunid pleidleisio arno fel swyddog neu aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Pleidleisid trwy balot, ac ar y cyfan gweithiai'r cynllun yn foddhaol heb ormod o siomi pobl sensitif.

Beth am fy mhrofiad fel gweinidog ? I mi, bu swyddogion a phwyllgorau'r eglwysi y bûm yn gweinidogaethu iddynt, bob amser yn gwrtais, yn ystyriol a charedig. Disgwylient i'r gweinidog weithio, a rhoi gwaith yr Eglwys a'r Ysgol Sul yn flaenaf, a chawsai'r gweinidog, a wnâi hynny yn gydwybodol, barch ganddynt er ei fynych amherffeithderau. Ni bu achos i mi gweryla ag un Swyddog nac aelod o bwyllgor gwaith. Weithiau cwrddais a dynion anfoneddigaidd ymhlith crefyddwyr, ac ymdrechais, yn weddol llwyddiannus, i beidio talu dant am ddant iddynt.

Cefais fy nhalu yn brydlon gan bob trysorydd y bûm yn dibynnu arno am fy nghyflog.

Y peth a'm blinodd i fwyaf, drwy gydol fy ngweinidogaeth, oedd pryder ynghylch fy iechyd. Pan oeddwn yn hogyn, bûm glaf o glwyf ar fy ystumog, a gadawodd yr anhwyldeb hwnnw fi yn ddioddefydd oddi with *nervous dyspepsia*, a fu'n rhwystr i mi yn fy ngwaith drwy'r blynyddoedd. Oherwydd hynny, dydd o ympryd hyd yr hwyr, fu pob dydd Sul i mi, pan wrth fy ngwaith. Ar ôl llawer o arbrofion, canfûm mai dyna'r ffordd orau i mi wneud fy ngwaith yn weddol effeithiol ar ddydd caletaf yr wythnos.

Y mae gan gyfran fawr o bobl y byd ryw faich i'w gario : fy maich i oedd y pryder y soniais am dano ; ond gwneuthum fy ngorau i'w gario heb rwgnach na diffygio. Onibai am y rhwystr a enwais, credaf y buaswn yng nghyflawn waith y weinidogaeth eto.

Calendr yr Enwad.

AGORWN y Calendr drwy gymryd bras olwg dros weithrediadau'r Gymdeithas Gyffredinol yn ei chyrddau blynyddol yn Newcastle-on-Tyne yn ystod wythnos olaf mis Ebrill. Y Parch. G. Randall Jones, B.D. a agorodd y gyfres drwy draddodi Pregeth y Gymdeithas a'r Parch. J. H. Coram Davies, B.A. yn gweinyddu'r gwasanaeth. Testun Mr. Jones oedd, "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain. Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch". Y mae dau fudiad grymus wedi ei sefydlu ar hanner-gwirionedd yn flaenllaw yn ein byd heddiw. Dyneiddiaeth a gred y gall dyn wneud popeth, a chanlynwyr Barth a gred na all dyn wneud *dim* heb Dduw. Neges y testun yw bod rhaid rhoi'r ddau hanner-gwirionedd at ei gilydd i gael y gwirionedd llawn. Dylid pwysleisio'r ddwy ochr yn ein mudiad. Fe gredwn yng ngallu dyn am ein bod yn credu yng ngallu Duw i weithio ynddo a thrwyddo.

Bore trannoeth cafwyd annerchiad y Llywydd, y Parch. Fred Cottier, a'i destun ef oedd "Teyrngarwch Eglwysig". Ymdriniodd â'r ysgrifennu a fu yn ddiweddar yn yr *Inquirer* dros i'r Mudiad Undodaidd dorri oddi wrth Gorff Cristnogaeth. Soniodd am y rhesymau dros hynny a'r gwrthod a fu arnom gan Uniongrededd. Eithr fe'n hatgofiodd o'n traddodiad Cristnogol a dylem fod yn barod meddai i amddiffyn ein hawl i aros yn y traddodiad hwnnw. Gofynnodd am deyrngarwch i'r Iesu ac i'r traddodiad rhesymol, Cristnogol sy'n rhan o'n gwaed a'n gwead. Felly y dywaid y proffwydi bach hefyd !

Annerchwyd y Cwrdd Cyhoeddus gan y Parch. Laurence Redfern, M.A., B.D., a'r Gwir Anrhydeddus Chuter Ede y Gweinidog Cartrefol. Mynnai Mr. Redfern mai angen mwyaf ein byd aniddig oedd gwrteithio ysbryd parchedigaeth a chael gwybodaeth o'r gwerthoedd tragwyddol. "Rhyddid a Threfn" oedd testun Mr. Ede. Peth cymharol newydd i'r ddynoliaeth yw rhyddid ac nis cedwir heb ofal. Nid hawl i bobun i wneud fel y myn yw rhyddid eithr, mae'n rhaid wrth drefn cyn cael rhyddid iawn. Yn y drefn honno y mae lle pwysig i gyfrifoldeb yr unigolyn.

Yn y cwrdd busnes pasiwyd penderfyniad i ystyried cynllun Llywodraeth Ffederal i'r Byd ar gynigiad y Parch. Basil Viney, Abertawe. Ymddiswyddodd Dr. Mortimer Rowe o'i waith fel Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas a daeth y Parch. John Kielty i lanw ei le.

Y mae'n ddiamau mai un o areithiau mwyaf byw y gyfres oedd eiddo Mr. Ronald P. Jones yng nghwrdd y gweinidogion. Ei destun oedd, "Beth a ddisgwylir gan wŷr y côr oddi wrth wŷr y

pulpud" ? Ystyria'r gŵr yn y côr fod y weinidogaeth yn alwedigaeth gysegredig. Y mae'r lleygwr yn hoffi gweld ei weinidog mewn gwisg addas. Dylid rhoi parch i'r brethyn a disgwylir safon uwch o foesoldeb a bywyd oddi wrth y gweinidog gan y gŵr cyffredin. Prif waith gweinidog yw gweinyddu addoliad y bobl ac ni ddylai dim arall fynd a'i fryd. Mae'n well gan wŷr y côr bregeth na thraethawd a disgwylir i'r pulpud lefaru gydag awdurdod. Aeth dydd yr ymweld cyson heibio bellach, meddai. Ni ddisgwyliaf i'r gweinidog ymweld â mi. Af i'r cwrdd bob dydd Sul ! Clywch, Clywch ! !

Cyrddau Pasg Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd y Pasg yng Nghapel-y-Cwm ddydd Mawrth a dydd Mercher, Ebrill 19 a 20. Cafwyd gwasanaethau calonogol mewn tywydd braf. Rhwystrodd afiechyd y Parch. Lewis Williams i wasanaethu nos Fawrth ac fe gafodd y Parch. E. O. Jenkins y gwasanaeth yn ei hyd a chyflawnodd ei waith yn dda. Yn y prynhawn ar ôl y pwyllgor, dydd Mercher pregethodd y Parch. D. Jacob Davies, B.A. ar y pwnc, "A yw'r Undodwr yn Gristion" ? Gorffwys sail yr enwad, meddai, ar ffordd yr Iesu yn hytrach nac ar yr hyn a osodwyd i fyny gan grefyddwyr mewn cyfnodau diweddarach. Yn yr hwyr gwasanaethwyd gan y Parch. Noel James, B.A., ac fe bregethodd yn effeithiol ar y gwrth-gyferbyniad rhwng cydymffurfio â'r byd hwn a dilyn y Ffordd. Yn ei fodd hyfryd arferol pregethodd y Prif Athro J. D. Jones, B.A., B.D., ar fethiant Pedr i fod wrth ochr yr Iesu pan oedd yr eisiau fwyaf.

Cyfarfu'r Pwyllgor ar Ebrill 20, o dan lywyddiaeth y Parch. Islan Jones, M.A., Llywydd y Gymdeithas. Yr oedd y Parchn. Lewis Williams a Gwilym Evans, B.A., yn absennol oherwydd afiechyd ac estynnwyd cydymdeimlad y cwrdd iddynt. Penderfynwyd ein bod yn cymeradwyo cais Golygydd Yr Ymofynnydd am gynorthwy ariannol i gwrdd â'r ymdrech i chwyddo cylchrediad y Cylchgrawn. Adroddwyd nad oedd ymddiriedolwyr Penrhiw wedi penderfynu hyd yn hyn ar y bwriad i drosglwyddo'r Capel i Amgueddfa Werin Cymru. Enwyd Swyddogion fel y canlyn : Llywydd, y Parch. Gwilym Evans, B.A. ; Is-Lywydd, Mrs. J. Park Davies, Y.H. ; Ail-enwyd yr Ysgrifennydd, y Trysorydd a'r archwilwyr. Mynegwyd diolchiadau gwresog i gynulleidfa Capel-y-Cwm am eu croeso a'r paratoadau ar gyfer y cyrddau.

Cymanfa De-Ddwyreiniol Morgannwg.

Ar ddydd Llun y Pasg, Ebrill 18, 1949, cynhaliwyd y Gymanfa Ganu uchod yng Nghapel y Graig, Trebanos. Daeth cynulliad da ynghyd o'r dair Eglwys Gymraeg ac fe gawsom hefyd bresenoldeb a chynorthwy llond bus o gyfeillion caredig Llwynrhydowen.

Fel ers tro bellach, yr un rhaglen a ddefnyddiwyd ac a genir yng Nghymanfa Ceredigion, ac yn wir rhaglen dda oedd hon, yn cynnwys tonau da ac emynau gwir addolgar. Yr arweinydd eleni oedd y Parch. E. R. Dennis, L.T.S.C., Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon. Wedi llawer o bryder yn ystod y gaeaf am iechyd ansicr y Parch. E. R. Dennis aeth pob pryder ar ffo pan welsom yr hwylustod a ddangosai yn y gwaith. Yr oedd yn bleser calon i'w glywed yn galw sylw at ambell air mewn pennill ac emyn a thro arall at frawddeg gyfan ac yn eu esbonio a dangos eu gwerth a'u pwysigrwydd. Os teimla'r arweinydd fod arbenigrwydd mewn gair neu frawddeg paham na ellir aros gyda'r gair neu arafu ar y canu er mwyn dwyn gwerth ysbrydol y geiriau a'r brawddegau i'r amlwg. Dyna agwedd ar ein canu sydd wedi mynd ar goll ers tro bellach, ac fe deimlaf yn ddiolchgar i'r arweinydd am geisio adfer yr agwedd fendithiol yma i ganiadaeth y cysegr. Yn ddibetrus, llawforwyn yr emyn yw'r dôn.

Bu hwyl dda ar y gwaith ar hyd y dydd a llongyfarchwn yr arweinydd ar ei lwyddiant, ac yntau wrthi am y tro cyntaf.

Dechreuwyd oedfa'r bore gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Cefn Coed. Hyfryd oedd clywed y plant yn adrodd yr emynau cyn eu canu a chredaf fod hyn yn rhoi'r cyfeiriad iawn i'r canu a'r cantorion am y dydd. Dyma'r rhai a adroddodd o'r dair Eglwys : Morfudd Thomas, Medi Williams, Geraint Thomas, Gareth Williams, Beryl Morgan a Geoffrey Evans. Cafwyd unawd hefyd gan Pat Williams, o Highland Place, Aberdâr. Llywydd y bore oedd Mr. Ioan Davies o'r Graig ac fe gafwyd sylwadau pwrpasol iawn ganddo ar amcan y Gymanfa. Dechreuwyd yn y prynhawn gan y Parch. E. O. Jenkins a llywyddwyd gan Mr. Tom Chambers, Cefn Coed. Cyfeiriodd yr olaf ei sylwadau yn arbennig at y bobl ifainc gan annog yn daer arnynt i ymarfer yr ochr ysbrydol o fywyd ac i wrteithio'r elfen grefyddol o'i rhodiad. Cafwyd hwyl gyda'r oedfa yma eto. Dechreuwyd cwrdd yr hwyr gan y Prif Athro J. D. Jones, B.A., B.D., Caerfyrddin a llywyddwyd gan Mr. Willie Jones, A.L.C.M., Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon. Cawsom ganddo ef araith ddiddorol dros ben ar hanes taith y Gymanfa yn y gorffennol gan sôn am y ffyddloniaid a'i brwdfrydedd drosti, eu cariad at ganu'r cysegr. Annogodd ni i efelychu ffyddlondeb y tadau i'r Gymanfa er sicrhau ei pharhad a'i llwyddiant yn y dyfodol. Siaradwyd hefyd yn ystod y dydd gan y Parch. Simon Jones, Pennardd a Mr. D. T. Williams, Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon. Teimlwn yn hapus am lwyddiant y Gymanfa ac yn ddiolchgar i'r Parch. E. R. Dennis am ei ymdrech. Gwerthfawr iawn hefyd oedd gwaith Mr. Isaac Hopkin, B.Sc., Graig, Trebanos wrth yr organ. Ac anghyflawn y sylwadau yma heb ddatganiad o'n diolchgarwch cynnes i chwiorydd Gellionen a'r Graig am y lluniaeth helaeth a'r croeso mynwesol a gawsom ganddynt.—Un oedd yno.

Cyrddau Blynyddol De-Ddwyrain Morgannwg.

Cynhaliwyd y cyrddau yma eleni yn Notais, ger Porthcawl ar ddydd Sadwrn, y 7fed o Fai. Hyfryted yr hin a'r lle fel y gallem ganu, "Wel, dyma hyfryd fan i droi at Dduw". Agorwyd y gweithrediadau trwy wasanaeth byr gan ein Myfyriwr newydd yng Nghaerfyrddin, Mr. B. Llew Hopkins a llywydd y Gymdeithas am y llynedd, y Cynghorwr Tom Morse, Highland Place a gymerth gadair y cyfarfod busnes. Wele rai manion o adroddiad y Pwyllgor. Cafwyd adroddiadau o waith Urdd y Benywod, Cymdeithas yr Ysgol Sul ac Urdd y Bobl Ifainc a dangoswyd fod pob un o'r mudiadau yma yn iachus a gwerthfawr yn ein cylch. Dangoswyd fod £2,071/5/6 wedi eu casglu tuag at y Gronfa Can Mil a bod y Gymdeithas yn iach o glefyd yr arian. Ymddeolodd Miss Lee o'i swydd fel Trysorydd ac fe apwyntiwyd Mr. S. R. Butler, Caerdydd i'w dilyn. Etholwyd Miss Lee yn Is-Lywydd. Cafwyd gair pwrpasol iawn gan y llywydd am eleni, y Parch. E. J. Williams, Notais a'r Wig. Gŵr a droes atom oddi wrth yr Eglwys Gatholig ydyw ef ac fe'n hanogodd i fod yn fwy brwd ein sêl i ledaenu ein cenadwri ardderchog. Gwyddai am sêl ei hen eglwys a synnai mor farw oedd Undodiaith yn hyn o waith.

Yn yr hwyr, pregethwyd gan y Parch. Fred Cottier, llywydd newydd y Gymdeithas Gyffredinol. Gŵr dymunol a braf yr olwg, a'i ffordd yn agos atom. Ei destun oedd "Ffydd", a'i neges oedd y dylid gweld bod ein ffydd wedi ei phuro gan Ddaioni, Gwirionedd a Harddwch. Teimlwyd fod naws a chysgod y Dwyfol ar y dydd.

Dwy Gymanfa Ysgolion.

Cynhaliwyd Cymanfa Fach y dosbarth isaf o'r Sir yn y Graig, Llandysul, ar Sul, Mai 8. Y Maes Llafur oedd Mathew 21, a holwyd yr Ysgolion gan y Parch. E. O. Jenkins ar rybudd byr oherwydd afiechyd ein Prif Athro. Ond rhybudd byr neu beidio ceir adroddiadau o bob man fod hwyl ar yr holi a'r ateb a bod yr adrodd o safon uchel. Miss Evans, Dedwyddfa oedd wrth yr organ, a Mrs. Evans, Pencader (gynt 'Argoed'), oedd arweinydd y gân. Hwythau ill dwy ar eu gorau. Yn yr hwyr fel yn y prynhawn yr oedd y Capel yn orlawn a phawb yn tystio iddynt glywed un o bregethau mawr y Parch. E. O. Jenkins. Cymanfa hwylus—'Melys moes mwy'.

Cynhaliodd Ysgolion Sul Ciliau Aeron, Rhydygwin, Cwmsychbant, Capel-y-Bryn a Chribyn eu Cymanfa Ysgolion flynyddol yng Nghapel Ciliau Aeron, Sul, Mai 15. Cafwyd arwyddion amlwg o adfywiad yn yr ysgolion yma a chynulliadau'r bore a'r prynhawn yn lluosocach o lawer nag arfer. Gwnaeth pob ysgol ei gwaith yn dda hefyd. Yr holwyr oedd y Parchn. E. O. Jenkins a J. Islan Jones, M.A., a chlod iddynt am waith rhagorol. Holwyd y plant

gan Miss Evans, Blue Bell, Cwrtnewydd ac yr oedd yn amlwg ei bod wedi llafurio'n galed ar gyfer y dydd hwn. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch, Dihewyd. Yn yr hwyr cynhaliwyd rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu o dan arweiniad Mr. David Evans, Melrose Park, Cwrtnewydd.

Cronfa'r Myfyrwyr.

Mae cronfa er cynorthwyo ein myfyrwyr yng Ngholeg Caerfyrddin wedi bodoli o dan wahanol enwau am dros bedwar ugain mlynedd. Awgrymwyd y peth yn Yr Ymofynnydd mor gynnar â Medi, 1853 ; adfywiodd y syniad mewn ymddiddan rhwng ' wyth o gyfeillion ar eu ffordd o Gwrdd Cwarter yn y Wig (1860),' ond ni ddaeth i ben am bedair blynedd arall. Pryd hynny sefydlwyd y Gronfa gan y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn eu cyfarfodydd yn Blaengwrach a Chwmbach, Aberdâr yn 1864. Fel Yr Ymofynnydd mae'r Gronfa wedi marweiddio droeon. Atgyfodwyd hi yn 1912 gan yr Athro Philemon Moore a'r Parch. T. Arthur Thomas ac o'r flwyddyn honno y mae wedi gweithredu yn barhaus ac y mae yn agos i ddwsin o'n myfyrwyr wedi derbyn cymorth oddi wrthi. Ar ôl wyth mlynedd heb yr un, da yw gwybod fod gennym eleni ddau fyfyriwr addawol—un yn y coleg a'r llall yn paratoi o dan hyfforddiant y Prif Athro. Yn 1864, £12 y flwyddyn oedd y grants ond erbyn heddiw rhaid wrth £100 yr un er cyfarfod a'u gofyniadau yn y Coleg. Ein targed felly yw £100 am eleni a £200 am y tymor 1949—50. Drwy haelioni y rhai a barhaodd i danysgrifio ar hyd yr amser codwyd y *Capital Fund* o £300 i £825 a da fyddai ei chynyddu eleni i £1,000 (£3,000 oedd y nôd unwaith) fel y gellir cael llôg i gyfarfod â'r anghenion mwy yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae llawer o'r tanysgrifwyr a'r cynulleidfaoedd wedi anfon eu cyfran yn barod—rhai ohonynt yn haelionus fel Ciliau, un o'r lleiaf mewn rhif (£4—5) a Gellionnen a'r Graig (£10—14), un o'r mwyaf. Gan fod y flwyddyn yn diweddu Mehefin 30, apeliaf at y rhai sydd heb wneud eu rhan hyd yn hyn. Yn wir, apeliaf at bob darllennydd o'r Ymofynnydd am gynorthwy i'r Gronfa *eleni* a rhywbeth yn fwy at y *Capital Fund.* Yn ôl O. M. Edwards yr oedd gweithwyr tlawd Llanuwchllyn er na chawsent swllt y dydd, yn cyfrannu bob un ei bunt er codi Coleg y Bala. Dyna'r ysbryd a orchfyga. Gawn ni weld rhyw gymaint ohono ym mhlith Undodiaid Cymru y mis hwn? Heb gynorthwy, heb fyfyrwyr ; heb fyfyrwyr, heb weinidogion a heb weinidogion ni ellir disgwyl llwyddiant i'r achos. Anfonwch yn fuan os gwelwch yn dda, ataf i, Simon Jones (*Trysorydd*), Celfan, Southgate, Swansea.

Gohebiaeth.

TYSTEB YR ATHRO M. B. OWEN, Y COLEG PRESBYTERAIDD, CAERFYRDDIN.

ANNWYL SYR,—

Gyda'ch caniatâd caredig dymunem ddiolch yn galonnog i bawb a fu mor barod i ateb ein hapel ar ran yr uchod. Croesawodd llu o hen fyfyrwyr ac craill y cyfle i fynegi mewn modd sylweddol eu parch i wrthrych y Dysteb, a derbyniasom lawer o lythyrau yn ein llongyfarch ar ein hymgais i anrhydeddu un a wasanaethodd eraill yn rhyfeddol o gyson ac effeithiol ond yn ddifalch ac anhunanol am flynyddoedd hirfaith.

Penderfynasom gyflwyno'r Dysteb i'r Athro Owen yn ystod Cyrddau Blynyddol y Coleg a gynhelir yng Nghaerfyrddin prynhawn Mercher, Mehefin 29. Od oes neb yn aros a garai ran yn y weithred syml hon o dalu parch lle y mae parch yn deilwng, a fydded mor garedig ag anfon ei gyfran mor fuan ag y sydd modd i'r trysorydd, Mr. T. J. Evans, 50, Myrddin Crescent, Carmarthen.

"Y mae efe yn haeddu cael gwneuthur ohonom hyn iddo."

Arwyddwyd dros y Pwyllgor, WALDO LEWIS.
T. GEORGE DAVIES.
T. J. EVANS.

ANNWYL OLYGYDD,—

DIOLCH am rifyn diddorol eto am fis Mai. Un peth ynddo na ddeallaf ydyw y cyfeiriad at genedl gaeth. Fel un wedi byw am dros ugain mlynedd yng Nghymru a thros ugain arall yn Lloegr nid wyf wedi gweld na chael unrhyw brofiad o'r caethiwed yma o Gymru na'r Cymry. Ai nid rhywbeth dychmygol yn codi o ryw *Inferiority Complex* ydyw a dim mwy.

Eiddoch yn gynnes, R.O.J.

Diolch i R.O.J. am ei sylw ; sylw y cytunir arno gan lawer o ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD mae'n debyg. Diolch hefyd iddo am ei ddull cyfeillgar o'i gyflwyno a mawr obeithaf mai dyma a fydd cywair pob trafodaeth ar dudalennau ein cylchgrawn—anghytuno cytunus ! Cyfaddefaf ar unwaith hefyd fod y gair caeth yn un cryf ei ystyr eithr nid oes ddewis wrth geisio cyflwyno'r gwrthwyneb i ' rhydd '. Pan soniwn am *ddyn rhydd,* meddyliwn am berson sydd yn abl i weithredu yn ôl ei ewyllys ei hun, dyn heb fod o dan iau na gorfodaeth allanol o unrhyw fath. Dyna'n fras hefyd yw ein meddwl pan soniwn am genedl rydd. Felly, oni cheir yr amodau hynny o ryddid, y mae yn iawn mi dybiaf i ddweud fod caethiwed ; gall fod yn gaethiwed cymhedrol neu'n gaethiwed o'r radd eithaf. Mae'n amlwg oddi wrth waith ac ymadrodd R.O.J. ei fod yn cydnabod ei fod yn perthyn i genedl arbennig a bod i'r genedl honno ei thraddodiad a'i diwylliant arbennig. A gofyn cwestiwn a wneuthum i yn y ' Nodiadau ', ' A oes i genedl fel y dyn unigol ei neges a'i chyfraniad na ddylid ei fygu ' ? Rhoddaf enghraifft i gadarnhau fy nadl. Ym mis Ebrill 1947 ymdriniwyd â Deddf Gorfodaeth Filwrol yn y

Senedd. Pleidleisiodd 20 o aelodau Seneddol Cymru yn erbyn gorfodaeth a 12 o blaid. Os ydym yn ystyried pleidlais seneddwr yn beth democrataidd, yr oedd mwyafrif ein cenedl fel Cymry yn erbyn Gorfodaeth amser heddwch. Eithr oblegid nad oedd Cymru yn rhydd i weithredu yn ôl ewyllys mwyafrif ei phobl, fe'n *caethiwir* o dan rwymau'r ddeddf, boed dda, boed ddrwg, nid oes fater am hynny i bwrpas y ddadl. I'r dyn unigol trefnwyd cymal yn y ddeddf fel y gallo wneuthur gwrthwynebiad cydwybodol i orfodaeth filwrol—*dyna ryddid* i raddau. I'n cenedl nid oes rym yn ei gwrthwynebiad—*dyna gaethiwed.* Digwyddodd yr un peth i raddau ynglŷn â gofynion afresymol ac anghyfartal y Swyddfa Ryfel ar ein tir ; collwyd 430,000 o'n poblogaeth ifanc dros Glawdd Offa rhwng 1921—1938 ; ni roddir i'r Gymraeg unrhyw safle swyddogol. Gallwn brotestio yn gwbl rydd yn erbyn y pethau yma, eithr nid oes fawr o rym i'n protest. "Ai nid rhywbeth dychmygol yn codi o ryw *inferiority complex* ydyw'r sôn am gaethiwed", meddai R.O.J. Onid canlyniad uniongyrchol i'r ffeithiau uchod yw y ffaith bod *complex* o gwbl ac onid nôd clust y taeog yw bob amser ?—*Golygydd.*

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.—Pantydefaid, Awst 9—10.

COLEG MANCEINION, RHYDYCHEN.—Y mae pwyllgor y Coleg yma yn gryf o blaid gwerthu'r adeilad i sefydliad arall. Cred YR YMOFYNNYDD y byddai yn gam yn ôl i ollwng gafael ar sefydliad mor bwysig yn hanes Crefydd Rydd. Gofynnwch am fanylion gan eich Gweinidog, neu danfonwch gais neu brotest yn uniongyrchol i "Secretary," Junior Common Room, Manchester College, Oxford. Mae'r ymddiriedolwyr yn cwrdd ar y 21 o Fehefin—brysiwch !

ER COF AM JOHN JENKINS.

LLYTHYR eto oddi cartref
Hen gydnabod wedi mynd ;
Hen gymeriad distaw syml
Minnau'n falch i'w alw'n ffrind.
Bu fyw'n union ac yn ffyddlon
Yn 'run teml ddyddiau' oes,
Ffyddlon ar ddydd tes a storom
Mewn modd hynod anghyffrous.

Hoffai rodio yn y cyhudd
Gyda gwlith a ffresni'r clawdd,
Rhodio'n un â'i syml gymeriad
Llwybrau dinod iddo'n hawdd.
Ffarwel bellach hen gydnabod
Melys, melys fydd dy hûn
Os bydd trigfan yn y nefoedd
Dan yr enw Rhydygwin.

NANCE.

Priodasau.

Ebrill 8, yng Nghapelygroes, Mr. LUTHER EVANS, Gwarffynnon, Capel Dewi, a Miss MARY ELIZABETH JONES, Esgeringlis, Llanwnen gan y Parch. David Evans, ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. Idwal Davies. Pob llwyddiant a hawddfyd a fo'n rhan iddynt.

Yng Nghapel Caeronnen, dydd Sadwrn, Ebrill 16, unwyd mewn glân briodas "TILLY", merch Mr. a Mrs. Jones, Tŷ'r Capel, Caeronnen ac IVOR DOUGLAS WILLIAMS, Llwynygog, Llanfair Clydogau—ill dau weithian o Lundain. Gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch. T. O. Williams ym mhresenoldeb y Cofrestrydd Idwal Davies. Hir oes a phob hapusrwydd i'r ddeuddyn ifanc.

Mai 14 ym Mhantydefaid, Mr. THOMAS LLOYD JONES, Llwyncelyn, Tregroes a Miss MARY EVANS, Glaslwyn, Pontshaen. Priodwyd gan y Parchn. Gwilym Evans, B.A., a D. Jacob Davies, B.A. ym mhresenoldeb Mr. David Davies y Cofrestrydd.

Eu cartref fyddo'n ddedwydd
Mewn serch a chariad beunydd,
Fel hyn dymuna'r ardal hon
O galon gyda'i gilydd.

Marwgofion.

Ebrill 3, 1941, collodd JAMES, annwyl briod Mrs. M. A. Davies, Morfa, Ceinewydd a'i fab eu bywydau ar y môr mewn *Tanker* adeg y rhyfel. Cymerodd amser maith i'r weddw a'i merch lwyr gredu fod y ddau wedi darfod amdanynt ac na chaent eu cwmni ar yr aelwyd mwyach. Brodor o ardal Llwynrhydowen oedd James, a merch Ffynnonllewelyn yw ei weddw. 50 oedd ef, a'r mab yn 21. Yr Hydref diwethaf gosodwyd carreg fedd ym mynwent Pantydefaid i gofio amdanynt ac ar Sul, Ebrill 3, wyth mlynedd i'r dydd y collwyd hwynt, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o barch iddynt ac o gydymdeimlad â'r weddw a'r ferch ym Mhantydefaid. Daeth nifer fawr o gyn-filwyr ac eraill drosodd o'r Cei a gosododd cangen Ceinewydd o'r *British Legion* y blethdorch arferol yn ymyl y garreg. Gan fod gweinidog y lle mewn afiechyd gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Collodd cynulleidfa Alltyplaca un o'r ffyddlonaf o'i aelodau ym marwolaeth Miss MARY EVANS, yr olaf o deulu Llwynbedw, ar y 14eg o Fawrth. Fel eraill o'r teulu bu'n gefn i'r achos am flynyddoedd maith. Yr oedd yn 77 a bu fyw yn yr hen gartref yn Llwynbedw hyd yn ddiweddar pan ymfudodd i Ffinantisaf. Yr oedd yn un o deulu cerddorol a diogel yr emyn bob amser a hwythau'n bresennol. Yr oedd hefyd yn hael a chyson yn ei chyfraniadau. Nid oedd ond eisiau cyhoeddi casgliad a deuai a'i chyfran yn union.

Yr oedd wedi gwneud hynny gyda'i chyfraniad aelodaeth eleni a chydnabyddai heb apêl fod cynnydd mewn costau byw. Neiaint iddi ydyw'r Parch. J. Dare Davies, Moneyrea, Iwerddon a'r diweddar Mr. Dan Davies, L.T.S.C. Yn yr angladd anghyoedd y dydd lau dilynol gwasanaethwyd gan y Parch. S. E. Bowen a'r Parch. E. Jenkins, Ficer Llanybydder. Cydymdeimlir â'r perthnasau yn eu galar. [Cyhoeddwn yn ddiolchgar ran o ewyllys Miss Mary Evans : "*I give the sum of £50 to the Committee or other body responsible for the publication of the denominational periodical known as the* YMOFYNNYDD, *or its successor, to be used as they think fit for the benefit of the said periodical and the receipt of the Secretary for the time being shall be sufficient discharge for the money*].

MAWRTH 23, yn 69 mlwydd oed, wedi cystudd hir, bu farw MARY JANE annwyl briod Mr. David Jones, Godre'rglyn, Cwmann. Un o hen deulu Talfoel ydoedd—hen deulu sydd wedi bod ynghlwm â Brondeifi o'r dechrau —ei thad ond odid oedd ysgrifennydd cyntaf Brondeifi. Gwraig dawel a gweithgar ydoedd, ond yn ddiweddar wedi dechrau nychu ac fe aeth adref fel diffodd cannwyll yn y diwedd. Bydd ei lle yn wâg yn yr Eglwys ac ar yr aelwyd a chofir yn hir amdani fel gwraig garedig. Claddwyd y dydd Sadwrn canlynol ym Mrondeifi, yr angladd yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei gweinidog a chan weinidog Noddfa Llanbedr. Gadawodd briod, pedwar brawd a chwaer heblaw nifer o berthnasau a ffrindiau i wylo deigryn ar ei hôl.

MAWRTH 4, yn Toronto, Canada, bu farw DAVID REES THOMAS gynt o Gwmeinon, Capel Dewi, yn 73 oed. Bu yng Nghanada am yn agos i hanner canrif. Yn unol â'i ddymuniad dygwyd ei lwch yn ôl i'w gladdu yng nghladdfa'r teulu ym mynwent Pantydefaid. Llun, Ebrill 4 daearwyd y llwch yng ngwydd nifer fawr o berthnasau a chyfeillion bore oes. Gwasanaethwyd yn Brynhyfryd, Llandysul i'r lle daeth y llwch, gan y Parch. James Jenkins, Ficer Llangunnor a Mr. Thomas (W.), Llandysul. Traddodwyd anerchiad yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, a gwasanaethwyd wrth y bedd gan Mr. Evans, Ficer Llandysul a Mr. James Jenkins. Gadawodd briod yn Toronto a brawd yn Brynhyfryd, Mr. J. R. Thomas, i wylo ei golli.

EBRILL 8, ar ôl bod yn ganolig am fisoedd lawer, bu farw MARY, annwyl briod David Davies, Tynfron, Llanwenog yn 73 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Joshua Thomas, Tycam—canwr cymeradwy iawn yn ei ddydd. 'Roedd Mrs. Davies hithau yn un o ffyddloniaid y gân yn Eglwys Llanwenog. Yr oedd yn hoff iawn o flodau hefyd ac yr oedd ganddi amser i'w trin ac amser i groesawu cyfeillion er iddi weithio'n galed holl ddyddiau ei hoes. 'Roedd yn hynod o garedig a chroesawgar. Collodd y priod gymar ffyddlon iawn a chydymdeimlwn ag ef yn ei unigedd—yntau'n un o ddiaconiaid Llwynrhydowen. Claddwyd y Mawrth dilynol yn Llanwenog. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. S. E. Bowen ac E. O. Jenkins ac yn yr Eglwys gan Ficeriaid eglwysi Llanwenog, Llandybïe a Merthyr Cyngoed.

EBRILL 11, yn 83 oed, LEWIS EVANS, Dolbont, Abermeurig. Mab ydoedd i'r Cilgwyn a nai i'r diweddar Barch. John Davies, Alltyplaca. Gŵr tawel ac heddychlon ydoedd, yn gerddor gwych ac yn gyfaill mwyn a thawel.

Yr oedd llawer o alw arno fel meddyg anifeiliaid. Yr oedd yn aelod o eglwys Rhydygwin. Gwasanaethwyd yn yr angladd anghyoedd yn absenoldeb y Parch. Lewis Williams, oherwydd afiechyd, gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, ac fe'i claddwyd ym medd ei briod ym mynwent capel Abermeurig. Gadawodd bedwar mab, tair merch a pherthnasau agos eraill mewn galar. Ef ond odid oedd yr olaf o hen deulu'r Cilgwynuchaf, Llangybi.

Ebrill 21, bu farw Mrs. SARAH LEWIS, Penybont, Llanybydder, gweddw'r diweddar Joseph Thomas Lewis, ysgolfeistr Ysgol y Cyngor, Dolgwm, Pencarreg. Yr oedd yn 77 oed. Bu'n gysylltiedig ag Alltyplaca gydol ei hoes ac yr oedd yn amlwg ym myd y gân yn ei blynyddoedd cynnar. Collodd ei phriod a'r teulu'n ifanc a mawr fu ei hymdrech ar eu rhan. Y mae pedwar ohonynt heddiw yn athrawon a dwy yn nyrsio. Claddwyd ei gweddillion y dydd Mawrth dilynol a'r Parchn. S. E. Bowen, Lewis Williams a David Jones (A) yn gwasanaethu. Gadawodd bedwar mab, tair merch a llawer o berthnasau mewn hiraeth ar ei hôl.

Ebrill 25, ar ôl cystudd byr iawn, EVAN SMITH DAVIES, Glynhathren, Llanbedr, yn 77 oed. Mab ydoedd i'r diweddar David Davies, Hwper Cwmann a brawd i'r diweddar J. Hathren Davies, Cefn Coed. Dechreuodd fel gof eithr am fod ei iechyd yn galw am awyr agored bu'n *water bailiff* am flynyddoedd lawer wedyn. 'Roedd canu yn ei waed a bu'n unawdydd amlwg am flynyddoedd. Etifeddodd lawer oddi wrth ei dad, 'roedd yn gwmnïwr da, hoff o hanesion ac yn Undodwr egwyddorol. Gadawodd briod, merch, mab, wyr, dwy chwaer oedrannus a pherthnasau pellach mewn galar. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym Mynwent Brondeifi a'r angladd yn anghyoedd. Gan fod y Parch. T. O. Williams yn ei wely, gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Ellis Jones, Noddfa.

Dydd Iau, Ebrill 28, claddwyd gweddillion Miss ANNE SMITH, Chalford, Aberfffrwd Rd., Aberpennar ym mynwent gyhoeddus y dref. Yr oedd yn 81. Gwelodd gystudd hir, eithr yn y cystudd hwnnw gwelodd gariad hir ymarhous ei brawd a roes bopeth o'r naill ochr er mwyn gweini ar ei gofynion. Yn nyddiau iechyd yr oedd yn mynychu Highland Place, a'i brawd, Mr. D. H. Smith, yw unig ymddiriedolwr y capel ar hyn o bryd. Yr oedd lle cynnes i'r Ymofynnydd ar ei haelwyd. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Jacob Davies.

Dydd Mercher, Mai 4, claddwyd Miss MARY JAMES, Rose Villa, Clifton St., Aberdâr a hithau yn 82 oed. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Highland Place ers pan symudodd y teulu i Aberdâr, eithr o gylch hen gapel cauedig Cwmbach y troai'r siarad gan amlaf yn ddiweddar. Hanai o hen deulu Undodaidd yn y Cwm a bu lle cynnes i Undodiaith a phregethwyr Undodaidd ar aelwyd Cwmneol gynt, fel ar yr aelwyd newydd yn Aberdâr. Ymhyfrydai yn ei gwreiddiau cadarn a rhoddai hynny urddas arbennig i'w bywyd a'i buchedd. Gedy mewn galar ddau frawd a chwaer a fu'n gweini'n garedig arni yn nyddiau'r caethiwed diweddar. Claddwyd yng nghladdfa gyhoeddus Aberdâr a gwasanaethwyd yn y tŷ gan ei gweinidog ac ar lan y bedd gan y Parch. E. R. Dennis.

MAI 16, ym mynwent Pantydefaid, claddwyd gweddillion marwol SIDNEY GEORGE OVERALL, Gwylfa-fach, Prengwyn, Llandysul yn 69 mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan ei weinidog ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins, a chwaraewyd yr Organ gan Mrs. Evans. Talwyd teyrnged anrhydeddus i gymeriad yr ymadawedig a dangoswyd cydymdeimlad dwys a'r teulu a'r perthnasau.

Nodion yr Eglwysi.

ANRHYDEDDU DAU UNDODWR.—Llongyfarchwn yr Henadur Simon Davies, Y.H., Greengrove, a'r Henadur M. Ll. G. Williams, Alltyplaca ar achlysur eu dyrchafu i'r fainc Henadurol unwaith eto. Dengys hyn fod gan y Cyngor ymddiried ynddynt a pharch iddynt.

LLUNDAIN.—Gwnaeth pwyllgor yr eglwys drefniadau i lanw'r pulpud hyd ddiwedd 1949. Bwriedir cael gwasanaeth neilltuol eleni ar y Sul cyntaf o Hydref, sef Cwrdd Diolchgarwch. Yr ydym yn ddiolchgar i'r Parch. Noel James, B.A. am oedfaon da a phregethau ardderchog. Ef a gymerodd y mwyafrif o'r gwasanaethau eleni. Gwasanaethwyd hefyd gan y Parch. T. L. Jones, y Parch. Islwyn Pritchard a'r Cadeirydd. Llongyfarchwn Mr. Pritchard am iddo dderbyn yr alwad i Gellionnen a'r Graig, a dymunwn bob llwyddiant iddo yn yr eglwysi bywiog hynny. Y mae Cymru i'w llongyfarch hefyd am ennill Cymro gloyw yn ôl o Loegr. Cafwyd sosial lwyddiannus dros ben nos Iau, 7fed o Ebrill a nifer fawr wedi crynhoi. Diolchwn i'r pedwar yma am drefniadau da : Misses Ray Jones, Sylwen Jones, Gill Williams a Mr. Jack Lewis. Hefyd i'r Parch. Noel James yr M.C. a'r gwragedd fu'n gweini wrth y bwrdd. Dyledus ydym hefyd i roddwyr yr anrhegion a'r rhai a gyfranodd at y rhaglen ddiddorol. Canodd Mr. Jack Lewis benillion pwrpasol hefyd.

HEN DY CWRDD, ABERDÂR. Llongyfarchion cynnes i'r Parch. E. R. Dennis ar gychwyn ei bedwaredd flwyddyn ar ddeg ar ugain fel gweinidog yr Hen Dŷ Cwrdd. Boed iddo lawer blwyddyn eto i fugeilio'r gorlan.

LLWYNRHYDOWEN.—Arlhwyr Gwener y Groglith, cafwyd Gwyl De flynyddol yr Ysgol Sul. Diolch i'r chwiorydd am lwytho'r byrddau. Gwobrwywyd 32 o blant am ffyddlondeb i'r Ysgol, a James Gwynfor Jones wedi ei chadw yn ddi-fwlch am ddeng mlynedd. Miss Margaret Mary Evans, Ffynnonllewelyn, arolygyddes yr Ysgol a gyflwynodd y gwobrwyon iddynt. Diolchir i Dan Davies, Clettwr Villa a John Daniel Jones, Penrallt am ei gwasanaeth yn y Cyfarfod.

PENRHIW.—Paham nad yw'r Ymddiriedolwyr wedi cyfarfod eto? Dyna'r cwestiwn a glywir o'r tu fewn ac o'r tu allan i'r enwad. Mae pawb yn aros yn eiddgar am y ddedfryd.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul